# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

## DYDD GWENER, 1 RHAGFYR 2023

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd A.C. Jones (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | K.V. Broom | L. Davies | P. Hughes-Griffiths |
| B.W. Jones | E. Skinner | | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| L.R. Bowen | D. Jones | S.L. Rees | M. Thomas |

**Aelodau Cyfetholedig (Yn y Siambr):**
A. Butcher, Rhiant-lywodraethwr
A. Enoch, Rhiant-lywodraethwr
V. Kenny – Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig

**Aelodau Cabinet (Yn y Siambr)**
G. Davies, Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
A Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
E. Forsyth, Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithlonrwydd Ysgolion
G. Evans, Pennaeth, Ysgol y Strade
Ll. Jones, Prif Ymgynghorydd Cymorth Addysg
C. Davies. Ymgynghorydd Cymorth Addysg
G. Kirby, Cydgysylltydd y Gwasanaeth Cerdd
E. Evans, Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn Rhithwir):**
A. Rees, Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr
J. Stuart, Uwch-bartner Busnes (Adnoddau Dynol)
M. Runeckles, Swyddog Cymorth Aelodau
S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 12.36 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M.J.A. Lewis a H. Jones.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| B. W. Jones | 5. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Recriwtio a Staffio mewn Ysgolion | Mae ei mab yn bennaeth ysgol yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynghorydd Jones wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau sy'n caniatáu iddi siarad a chyflwyno sylwadau yn unig. |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADOLYGIAD O DREFNIADAU STAFF CYFLENWI YN SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y trefniadau presennol o ran Staff Cyflenwi yn Sir Gaerfyrddin. Gofynnwyd i'r adroddiad adolygu cost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth allanol bresennol ac archwilio hyfywedd posibl darpariaeth gwasanaeth mewnol.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r trefniadau, y costau a'r modelau amgen posibl ar gyfer darparu staff cyflenwi. Yn hyn o beth, roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cronfa Athrawon Cyflenwi Genedlaethol gyda llwyfan digidol mewn ymdrech i ddatblygu opsiynau ar gyfer model cynaliadwy o addysgu cyflenwi gyda gwaith teg ledled Cymru. Nodwyd y byddai'n cael ei gweithredu fesul cam ac roedd y Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn dadansoddiad o'r cynllun peilot yn Awdurdod Lleol Ynys Môn.

Rhoddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y cynnydd sylweddol yng ngwariant staff asiantaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, eglurodd y Partner Busnes Arweiniol y gellir priodoli'r costau i'r staff asiantaeth ychwanegol sy'n cael eu cyflogi gan ysgolion y talwyd amdanynt gan gyllid grant Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses adfer ar ôl y pandemig. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai'r cyllid wedi'i ddyfarnu yn bennaf at ddiben recriwtio staff addysgu a chymorth ychwanegol, ond oherwydd yr ansicrwydd ynghylch hyd y cyllid grant, efallai y byddai ysgolion wedi bod yn amharod i gyflogi staff parhaol a fyddai wedi achosi costau ychwanegol ar gyfer dileu swyddi ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Yn unol â hynny, disgwylir gostyngiad yn y gwariant asiantaeth cyffredinol yn unol â lleihau neu dynnu'r grantiau hyn yn ôl.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, mewn ymateb i gwestiwn, fod modd priodoli'r gwariant ychwanegol yn uniongyrchol i'r cynnydd yn y galw, yn hytrach na chostau cynyddol athrawon cyflenwi.

Yn dilyn ymholiad, amlinellodd y Partner Busnes Arweiniol y costau a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflogaeth uniongyrchol yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys costau o gymharu â defnyddio Staff Asiantaeth a fyddai'n cynnwys ffioedd asiantaeth. Yn hyn o beth, cadarnhaodd y Partner Busnes Arweiniol fod y gyfradd isafswm cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi a oedd â'r Statws Athro Cymwysedig yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) bresennol; fodd bynnag, roedd gan ysgolion yr awdurdod i dalu cyfraddau dyddiol uwch os oedd hynny'n briodol.

Cafwyd trafodaeth ar rolau gwahanol Athrawon Cyflenwi â Statws Athro Cymwysedig a Goruchwylwyr Cyflenwi. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch y potensial i ysgolion ddefnyddio mwy o Oruchwylwyr Cyflenwi fel ateb arbed arian, amlinellodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ansawdd y gwiriadau dysgu a gynhaliwyd gan yr Awdurdod a dywedodd y dylai ysgolion wneud defnydd effeithiol o gyfuniad o Athrawon Cyflenwi a Goruchwylwyr Cyflenwi.

Yn dilyn ymholiad ynghylch dyrannu cyllid ar gyfer ysgolion, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i ysgolion sy'n wynebu mwy o heriau, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd difreintiedig drwy gyllid craidd a thaliadau grant atodol.

Cydnabu'r Pwyllgor fod dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu na fyddai unrhyw un o'r modelau amgen a nodir yn yr adroddiad yn arwain at arbedion i ysgolion na'r Awdurdod. Fodd bynnag, gallai newid dull o ymdrin ag absenoldebau athrawon tymor byr gyda Goruchwylydd Cyflenwi gynhyrchu rhai arbedion effeithlonrwydd gyda'r effaith leiaf posibl ar ddisgyblion a'u dysgu. Yn unol â hynny, mynegwyd y dylai'r ffordd ymlaen ymgorffori dull cyfunol, gyda phrosesau rheoli absenoldeb gwell i leihau nifer yr athrawon cyflenwi sydd ei angen, ynghyd â sicrhau bod defnyddio athrawon cyflenwi yn effeithiol o ran cost.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**4.1 nodi'r adroddiad a bydd diweddariad pellach yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor ar ôl cwblhau'r astudiaeth beilot a gynhaliwyd yn Awdurdod Lleol Ynys Môn.**

**4.2 bod y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r adolygiad o drefniadau staff cyflenwi yng Nghyngor Sir Caerfyrddin yn cael eu hanfon i'r Cabinet i'w hystyried.**

## 5. DIWEDDARIAD RECRIWTIO A STAFFIO YSGOLION

[Sylwer: Roedd y Cynghorydd B. W. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r mater gael ei drafod ond ni phleidleisiodd].

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â recriwtio a chadw staff mewn ysgolion.
Yn hyn o beth, roedd yr adroddiad yn nodi ystadegau ar gyfer y sir, ynghyd â ffigurau cymharol ar lefel genedlaethol yn ymwneud â recriwtio a chadw athrawon, nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg, nifer y myfyrwyr sy'n gwneud cais am Dystysgrifau Ôl-raddedig yn Gymraeg a Saesneg a'u cwblhau a throsolwg o'r cyd-destun arweinyddiaeth presennol.

Wrth adolygu'r adroddiad, rhoddwyd crynodeb i'r Pwyllgor o'r amrywiaeth o fesurau sy'n cael eu harchwilio i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol yng nghyd-destun rhaglenni datblygiad proffesiynol, ymgyrchoedd marchnata a'r broses recriwtio o fewn y Cyngor. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r argymhellion cyffredinol a nodwyd yn yr adroddiad.

Rhoddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

Mewn ymateb i ymholiad, nododd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion fod prinder cenedlaethol o bobl â diddordeb mewn addysgu fel gyrfa. Cyfeiriwyd at dystiolaeth anecdotaidd o addysgu yn dod yn broffesiwn llai dymunol am amrywiaeth o resymau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys y gydnabyddiaeth ariannol am swyddi Cynorthwyydd Addysgu sy'n deilwng o ofynion y rôl. Roedd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion yn rhoi sicrwydd bod Grŵp Ymgynghorol wedi'i sefydlu o fewn yr Awdurdod i adolygu pob agwedd ar y strwythur addysgu a'i fod yn cynnwys cyfran fertigol o weithwyr sy'n ymwneud ag addysg disgyblion Sir Gaerfyrddin. Cydnabuwyd y gellid gwneud mwy o waith ar lefel genedlaethol i fanteisio ar y cyfoeth o brofiad sydd ar gael, a fydd, yn ei dro, yn cyfrannu'n gadarnhaol at y profiad dysgu.

Mewn ymateb i gais am ragor o wybodaeth am y cynnig dysgu proffesiynol, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Academi Arweinyddiaeth Sir Gaerfyrddin wedi'i chyd-adeiladu ag arweinwyr ysgolion ac y byddai'n cael ei chefnogi gan lwyfan canolog ar-lein i gynorthwyo ysgolion i flaenoriaethu gofynion hyfforddiant i feysydd o angen. Rhoddwyd sicrwydd bod cymorth ychwanegol ar gael gan y Tîm Gwella Ysgolion i'r ysgolion llai sydd â strwythur arweinyddiaeth estynedig cyfyngedig.

Rhoddwyd awgrym i ymgymryd ag adolygiad gorchwyl a gorffen ar ffederasiynau ysgolion i archwilio'r cysylltiad rhwng recriwtio a goblygiadau cyllideb yng nghyd-destun Rhaglen Moderneiddio Addysg. Dywedodd y Cadeirydd y gellid adolygu'r angen am grŵp gorchwyl a gorffen os yw'n briodol, ar ôl cyflwyno'r gweithdy ar ffederasiynau ysgolion i'r Pwyllgor yn ystod Gwanwyn 2024. Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg fod y Cabinet ar hyn o bryd yn adolygu ôl troed yr ysgol fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae ysgolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Yn dilyn ymholiad ar effaith costau cynnal a chadw adeiladau ysgolion ar gyllidebau ysgolion, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant y byddai gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor am gyfrifo'r fformiwla ariannu a'r dyraniad cyllideb ysgolion y pen. Cadarnhawyd mai Cyrff Llywodraethu oedd

yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion eu hysgol berthnasol. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oedd y cyllid yn talu'r holl gostau a ysgwyddwyd gan rai ysgolion, yn enwedig o ran atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau gan fod y dyraniad cyllideb yn seiliedig yn bennaf ar nifer y disgyblion. Roedd mentrau fel y gwasanaeth tasgfan wedi'u cyflwyno i ysgolion cynradd mewn ymdrech i leddfu baich ysgolion yn hyn o beth.

**PENDERFYNWYD:**

**5.1 nodi'r adroddiad;**

**5.2 rhannu gwybodaeth am gyfrifo'r fformiwla ariannu a'r dyraniad cyllideb ysgolion y pen â'r Pwyllgor;**

**5.3 bod y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor mewn perthynas â recriwtio a chadw staff mewn ysgolion yn cael eu nodi gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant.**

## 6. Y GWASANAETH CERDDORIAETH

Cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi trosolwg o ddarpariaeth statudol ac anstatudol y gwasanaeth cerdd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd â'r effaith gadarnhaol ar lefelau personol a chymdeithasol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr amrywiaeth o fuddion sy'n deillio o addysg gerddorol a nododd ei bwysigrwydd yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru a'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth. At hynny, rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r ystod o gymorth a gynigir i ysgolion cynradd ac uwchradd drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol ar gyfer ystod eang o ddisgyblaethau, yn ogystal â'r gefnogaeth gorfforaethol a chymunedol a ddarperir gan y gwasanaeth cerdd yn flynyddol.

Rhoddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

Darparwyd trosolwg o'r mecanweithiau cyllido ar gyfer y gwasanaeth cerdd i'r Pwyllgor lle'r oedd gan ysgolion ddewislen o opsiynau ar gael iddynt fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Eglurwyd bod gan y rhan fwyaf o ysgolion bolisi codi tâl lle'r oedd yn ofynnol i ddisgyblion dalu cyfraniad tuag at hyfforddiant cerddoriaeth, a ychwanegwyd at gyllid craidd gan yr Awdurdod. At hynny, eglurwyd y byddai addysg gerddorol fel pwnc o fewn ysgolion uwchradd yn cael ei ddarparu o gyllidebau ysgolion. Mewn ymateb i ymholiad, rhoddodd Cydgysylltydd y Gwasanaeth Cerdd sicrwydd na chodir unrhyw daliadau ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer hyfforddiant gan y gwasanaeth cerdd a benthyg offerynnau i sicrhau ansawdd cyfle i'r holl ddisgyblion. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod llawer o ddisgyblion wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarparwyd yn hyn o beth.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y ddarpariaeth gwasanaeth cerdd o fewn y Cyngor am ei gyfraniad rhagorol i ddatblygiad dysgwyr ledled Sir Gaerfyrddin a phwysleisiodd bwysigrwydd addysg cerddoriaeth am sawl rheswm, gan gynnwys iechyd a llesiant, meithrin hyder, gwerthfawrogi diwylliannol, datblygiad gwybyddol a chreadigrwydd.

Rhoddodd Cydgysylltydd y Gwasanaeth Cerdd, mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor, grynodeb o gynlluniau'r dyfodol ar gyfer cymorth cymunedol a oedd yn cynnwys cyfleoedd i weithio gyda'r tîm Dysgu Oedolion a Chymunedol i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed ac ymgysylltu'n well â'r cyhoedd yn gyffredinol. Bu'r Awdurdod hefyd yn ymgysylltu â theatrau ar draws Sir Gaerfyrddin i gynnig rhaglen o gyngherddau cerddorfaol.

**PENDERFYNWYD:**

**6.1 nodi'r adroddiad;**

**6.2 cymeradwyo datblygiad y ddarpariaeth cerddoriaeth i oedolion;**

**6.3 Mae'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r gwasanaeth cerdd yn cael eu nodi gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant.**

## 7. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â cheisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23 a 2023/24.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad gohiriedig mewn perthynas â'r Diweddariad ar Adolygiad Estyn o'r Ddarpariaeth Gymraeg i Oedolion lle pwysleisiwyd bod dwy flynedd wedi mynd heibio ers yr adolygiad ac felly gwnaed cais i'r adroddiad gael ei ddarparu ar gyfer y cyfarfod nesaf. Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod datblygiadau wedi bod o ran y gwasanaeth o fewn y sir a bod trafodaethau gyda Cymraeg i Oedolion yn parhau. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl, a byddai'r dyddiad terfynol yn cael ei gadarnhau gyda'r Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD:**

**7.1 nodi'r adroddiad;**

**7.2 Bydd adroddiad diweddaru ar Adolygiad Estyn o'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl, a bydd dyddiad terfynol yn cael ei gadarnhau gyda'r Cadeirydd.**

## 8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu canlynol:

Wyth Maes Blaenoriaeth o fewn yr Is-adran Addysg a Gwasanaethau Plant (Argymhellion Arolygiadau Estyn). Nodwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor yng Ngwanwyn 2024.

Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr adroddiad sy'n ymwneud â'r strategaeth gwasanaethau cymdeithasol 10 mlynedd, a oedd i fod i gael ei rannu drwy e-bost, wedi'i ohirio tan 31 Ionawr 2024.

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

## 9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 31 Ionawr 2024.

**PENDERFYNWYD**

**9.1 nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 31 Ionawr 2024.**

**9.2 Bydd adroddiad diweddaru ar gyllidebau ysgolion yn cael ei ymgorffori ym Mlaengynllun Gwaith 2024/25, i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2024.**

## 10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9FED HYDREF 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2023 yn gofnod cywir.**

________________________ ________________________

**CHAIR** **DATE**